



Dyddiad cyflwyno: 17 Hydref 2017

Cynghorau Cymuned yng Nghymru

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais am wybodaeth isod, dyddiedig 14 Medi 2017, fel yr eglurwyd yn eich neges e-bost dyddiedig 19 Medi 2017, i ofyn am wybodaeth am Gynghorau Cymuned yng Nghymru.

Er mwyn hwylustod, rwyf wedi copïo eich cwestiynau isod a nodi ein hatebion cyfatebol.

1. Faint o gynghorau cymuned yng Nghymru sy'n destun gweithdrefnau archwilio mwy manwl gan SAC ar hyn o bryd?

Gweler ein hymateb i gwestiwn 6 isod.

2. Pa gynghorau cymuned sy'n destun gweithdrefnau archwilio mwy manwl? A

3. Pam mae'r cynghorau cymuned hyn yn destun gweithdrefnau archwilio mwy manwl?

Mae gennym rywfaint o wybodaeth ynglŷn â chynghorau cymuned sy'n destun gweithdrefnau archwilio mwy manwl yn y flwyddyn ariannol 2016/17 a'r rhesymau am hyn. Fodd bynnag, rwyf yn cadw'r wybodaeth hon yn ôl oherwydd y byddai, pe cai ei datgelu, yn dylanwadu ar swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gysylltiedig ag archwilio. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn atal cydweithredu ag archwilwyr. Mae cydweithredu o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer cynnal prosesau archwilio effeithlon ac effeithiol. Mae'r wybodaeth felly yn berthnasol i'r esemptiad a ddarperir yn adran 33 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (swyddogaethau archwilio). Mae budd i'r cyhoedd o gael gwybodaeth gyhoeddus ehangach am ddull gweithredu archwilwyr y sector gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai budd y cyhoedd o gynnal archwiliad cyhoeddus effeithiol drwy osgoi colli cydweithrediad a fyddai'n digwydd wrth ddatgelu gwybodaeth yn fwy na'r budd i'r cyhoedd yn sgil ei datgelu. Rwyf felly wedi penderfynu ar sail cydbwysedd y budd i'r cyhoedd y dylid cynnal yr esemptiad a ddarperir gan adran 33.

Rydym ni fel arfer yn dilyn gweithdrefnau archwilio mwy manwl wrth ymdrin â chyngor cymuned pan fo etholwr yn arddel ei hawliau o dan adran 30 neu 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 (i ofyn cwestiynau neu i wneud gwrthwynebiadau mewn archwiliad) neu pan fo gweithdrefnau archwilio wedi nodi problem. Sylwer, er y gellid ysgogi'r weithdrefn fwy manwl, nid yw o reidrwydd yn golygu bod cwestiynau neu wrthwynebiadau o'r fath yn ddilys nac yn berthnasol. Pe byddai'r weithdrefn archwilio fwy manwl yn datgelu mater y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn y dylid adrodd arno, gallai gyflwyno argymhellion a/neu adroddiad ynghylch y materion hynny.

4. A oes unrhyw gynghorwyr cymunedol wedi eu gwahardd dros dro o ganlyniad i hyn?

Nid oes gennym yr wybodaeth hon – byddai gwahardd dros dro unrhyw gynghorydd cymunedol yn fater i'r cyngor cymuned hwnnw.

5. A yw'r heddlu yn rhan neu a yw'r heddlu wedi bod yn rhan o weithdrefnau archwilio mwy manwl?

Nid yw'r heddlu yn rhan o unrhyw weithdrefnau archwilio. Mae'n bosibl y gallai'r heddlu gynnal ymchwiliad yn gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â gweithdrefnau archwilio ond nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chofnodi mewn ymchwiliad o'r fath.

6. Faint o gynghorau cymuned oedd yn destun gweithdrefnau archwilio mwy manwl yn 2014, 2015 a 2016? A yw rhai o'r gweithdrefnau mwy manwl presennol yn parhau o'r blynyddoedd hynny?

Cedwir cofnodion o gynghorau cymuned yng Nghymru a oedd yn destun gweithdrefnau mwy manwl yn y blynyddoedd ariannol 2015/16 a 2016/17. Ar gyfer 2015/16, roedd 18 o gynghorau cymuned yng Nghymru yn destun gweithdrefnau archwilio mwy manwl, ac mae 16 o'r rhain yn parhau. Ar gyfer 2016/17, mae 7 cyngor cymuned yn destun gweithdrefnau archwilio mwy manwl, pob un ohonynt yn parhau.

Nid ydym yn cadw gwybodaeth lawn ar y gweithdrefnau archwilio mwy manwl a allai fod wedi eu cynnal yn 2014/15 gan y cynhaliwyd yr archwiliadau hynny o gynghorau cymunedol gan gwmnïau allanol o gyfrifyddion yn gweithredu fel archwilydd penodedig. Nid yw'r swyddogaeth archwilydd penodedig yn bodoli bellach yn sgil Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, oherwydd o dan y Ddeddf honno daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Nid oedd yr archwilydd penodedig yn awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), ac felly, nid oes gennych yr hawl i weld yr wybodaeth a gadwyd gan neu ar ran yr archwilydd penodedig. Mae'r cofnodion sydd gennym yn dangos y bu 4 cyngor cymuned yn destun gweithdrefnau archwilio mwy manwl yn 2014/15.

7. Faint o weithiau y flwyddyn y mae cynghorau cymuned yng Nghymru yn gorfod cyflwyno cyfrifon i Swyddfa Archwilio Cymru?

Unwaith.

8. Faint o gynghorau cymuned yng Nghymru sydd ar ei hôl hi o ran cyflwyno eu cyfrifon?

Ar 29 Medi 2107, roedd 32 o gynghorau cymuned yn hwyr yn cyflwyno eu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17.

9. O'r rhai hynny sydd ar ei hôl hi, pryd oedd y tro olaf iddynt gyflwyno cyfrifon a pha gamau sy'n cael eu cymryd?

O'r 32 o gynghorau cymuned a oedd yn hwyr yn cyflwyno eu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17, cyflwynodd 23 o gynghorau cymuned gyfrifon ddiwethaf yn 2015/16 a chyflwynodd 9 ohonynt gyfrifon ddiwethaf yn 2014/15.

Pan fo cyngor cymuned yn hwyr yn cyflwyno eu cyfrifon rydym yn ceisio gweithio gyda'r cyngor hwnnw i sefydlu'r rhesymau am hyn, cysylltu â Chlerc y Cyngor ar y ffôn a thrwy ohebiaeth. Os na cheir ymateb rydym yn cysylltu â Chadeirydd y Cyngor. Mewn rhai achosion, rydym yn gofyn i'r Cadeirydd a'r Clerc ddod i'r archwiliad i esbonio'r sefyllfa.

Os hoffech gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr Moeseg a'r Gyfraith, drwy e-bost: martin.peters@audit.wales neu drwy lythyr i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan hon cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch pa un a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Nodwch er hynny y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl y byddech chi wedi defnyddio ein gweithdrefnau cwynion mewnol yn drylwyr cyn iddo ymdrin â chais o'r fath. Ceir rhagor o gyngor ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/>

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir